monmouthshire
sir fynwy

Neuadd y Sir
Y Rhadyr
Brynbuga
NP15 1GA

Dydd Mercher, 10 Gorffennaf 2019

**Hysbysiad o gyfarfod:**

# Cyngor Sir

**Dydd Iau, 18fed Gorffennaf, 2019 at 2.00 pm,**
**Council Chamber - Council Chamber**

# AGENDA

*Prayers will be said prior to the Council meeting at 4.55pm. All members are welcome to join the Chairman for prayers should they wish to do.*

| Eitem No | Eitem | Tudalennau |
|---|---|---|
| 1. | **Ymddiheuriadau am absenoldeb** | |
| 2. | **Datganiadau o Fuddiant** | |
| 3. | **Cwestiynau Cyhoeddus** | |
| 4. | **Cyhoeddiad y Cadeirydd a derbyn deisebau** | 1 - 2 |
| 5. | **Datganiad gan Aelod y Cabinet dros Blant a Phobl Ifanc - Buddsoddi mewn Ysgolion yr 21ain Ganrif** | |
| 6. | **Adroddiad Blynyddol y Pwyllgor Archwilio 2018/19** | 3 - 8 |
| 7. | **Datganiad Cyfrifon 2018/19** | 9 - 158 |
| 8. | **Cwestiynau'r Aelodau:** | |
| 8.1. | **O'r Cynghorydd Sirol R. Harris i'r Cynghorydd Sirol R. John, Aelod y Cabinet dros Blant a Phobl Ifanc a MonLife**<br><br>Mae yna saith categori o anghenion ADY i ysgolion cynradd eu hystyried ar gyfer eu disgyblion. A wnewch chi gyhoeddi nifer y disgyblion ym mhob un o'r saith categori ar gyfer yr holl ysgolion cynradd yng Ngogledd Sir Fynwy, a rhoi syniad i'r Cyngor o unrhyw bryderon a allai fod gennych pan fyddwch yn dadansoddi'r wybodaeth o'r cais hwn? | |
| 8.2. | **O'r Cynghorydd Sirol L. Brown i'r Cynghorydd Sirol R. John, Aelod** | |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | **y Cabinet dros Blant a Phobl Ifanc a MonLife**<br><br>Mae Ysgol Tŷ Mounton, Pwllmeurig, Cas-gwent yn fy ward i. Bu nifer o ymgynghoriadau ar yr ysgol hon, gan gynnwys yr un wreiddiol ac yn fy marn i, yr opsiwn gorau yn 2018 o ehangu'r ddarpariaeth Anghenion Dysgu Ychwanegol, ac yna ymgynghoriad ar leihau'r gyllideb ac wedyn yr ymgynghoriad presennol ar p'un ai i gau'r ysgol ai peidio.<br><br>Yr amserlen wreiddiol ar gyfer yr ymgynghoriad diweddaraf ar y cynnig ynghylch a ddylid cau'r ysgol ai peidio, oedd i hynny dod i ben ar 29 Ebrill 2019, ac yna'r adroddiad ar yr ymgynghoriad yn cael ei ddarparu ar ddiwedd Mai 2019 a'r Cabinet i wneud penderfyniad ar y 5 Mehefin 2019.<br><br>Rwy'n deall bod yr ymgynghoriad wedi'i ymestyn er mwyn caniatáu ar gyfer ymateb Estyn, ac ymatebion o tu allan y Sir a gan aelodau o bosibl. Byddai'n ddefnyddiol i bartïon â diddordeb wybod yr amserlen newydd.<br><br>A allai'r Aelod Cabinet ateb y cwestiwn ynghylch dyddiadau ' r amserlen newydd ar gyfer:<br><br>1. Y dyddiad newydd ar gyfer cau'r ymgynghoriad<br>2. Y dyddiad newydd ar gyfer yr adroddiad ymgynghori<br>3. Y dyddiad newydd ar gyfer penderfyniad y Cabinet<br>4. Y bydd y dyddiadau ar gyfer pwyntiau 2 a 3 uchod yn bendant o fewn amser tymor er mwyn sicrhau proses gyfansoddiadol briodol ar adeg pan fydd ysgolion ar agor.<br>5. Y bydd bwlch priodol rhwng pwyntiau 2 a 3 uchod am o leiaf 2 wythnos yn ystod y tymor er mwyn i'r adroddiad ymgynghori hwn gael ei gyhoeddi ac i gael ei ystyried cyn y dyddiad newydd ar gyfer penderfyniad y Cabinet.<br>6. Yr amserlen newydd ar gyfer y broses gyfan. | | |
| | **8.3.** | **O'r Cynghorydd Sirol L. Brown i'r Cynghorydd Sirol R. John, Aelod y Cabinet dros Blant a Phobl Ifanc a MonLife**<br><br>Bydd yr adroddiad ar yr ymgynghoriad yn rhoi crynodeb yn unig o'r ymatebion i'r ymgynghoriad ar Ysgol Tŷ Mounton, Pwllmeurig, Cas-gwent. Pa fynediad a ganiateir i Aelodau os dymunant, i ddarllen yr ymatebion gwirioneddol yn hytrach na chrynodeb o'r adroddiad ac os felly pryd a fydden nhw'n cael gwneud hynny? | |
| | **8.4.** | **O'r Cynghorydd Sirol J. Watkins i'r Cynghorydd Sirol J. Pratt, Aelod Cabinet dros Wasanaethau Seilwaith a Chymdogaeth**<br><br>A allai'r Aelod Cabinet roi'r wybodaeth ddiweddaraf i ni am y gwaith y mae'r Cyngor yn ei wneud ynglŷn â'r Argyfwng Hinsawdd? | |
| | **9.** | **I gadarnhau cofnodion cyfarfodydd y Cyngor Sir ar 20fed Mehefin 2019** | 159 - 164 |
| | **10.** | **I nodi dyddiad y cyfarfod nesaf fel Dydd Iau 19eg Medi 2019 am 2pm** | |

**Paul Matthews**
**Prif Weithredwr**

CYNGOR SIR FYNWY

MAE CYFANSODDIAD Y PWYLLGOR FEL SY'N DILYN:

Cynghorwyr Sir:

P. Clarke
D. Batrouni
J.Becker
D. Blakebrough
L.Brown
A.Davies
D. Dovey
L.Dymock
A. Easson
R. Edwards
D. Evans
M.Feakins
P.A. Fox
R.J.W. Greenland
M.Groucutt
L. Guppy
R. Harris
J. Higginson
G. Howard
S. Howarth
R.John
D. Jones
L.Jones
P. Jones
S. Jones
S.B. Jones
P. Jordan
M.Lane
P. Murphy
P.Pavia
M. Powell
J.Pratt
R.Roden
V. Smith
B. Strong
F. Taylor
T.Thomas
J.Treharne
J.Watkins
A. Watts
A. Webb
K. Williams
S. Woodhouse

## Gwybodaeth Gyhoeddus

**Mynediad i gopïau papur o agendâu ac adroddiadau**
Gellir darparu copi o'r agenda hwn ac adroddiadau perthnasol i aelodau'r cyhoedd sy'n mynychu cyfarfod drwy ofyn am gopi gan Gwasanaethau Democrataidd ar 01633 644219. Dylid nodi fod yn rhaid i ni dderbyn 24 awr o hysbysiad cyn y cyfarfod er mwyn darparu copi caled o'r agenda hwn i chi.

**Edrych ar y cyfarfod ar-lein**
Gellir gweld y cyfarfod ar-lein yn fyw neu'n dilyn y cyfarfod drwy fynd i www.monmouthshire.gov.uk neu drwy ymweld â'n tudalen Youtube drwy chwilio am MonmouthshireCC. Drwy fynd i mewn i'r ystafell gyfarfod, fel aelod o'r cyhoedd neu i gymryd rhan yn y cyfarfod, rydych yn caniatáu i gael eich ffilmio ac i ddefnydd posibl y delweddau a'r recordiadau sain hynny gan y Cyngor.

**Y Gymraeg**
Mae'r Cyngor yn croesawu cyfraniadau gan aelodau'r cyhoedd drwy gyfrwng y Gymraeg neu'r Saesneg. Gofynnwn gyda dyledus barch i chi roi 5 diwrnod o hysbysiad cyn y cyfarfod os dymunwch siarad yn Gymraeg fel y gallwn ddarparu ar gyfer eich anghenion.

# Nodau a Gwerthoedd Cyngor Sir Fynwy

## Ein diben

Adeiladu Cymunedau Cynaliadwy a Chydnerth

**Amcanion y gweithiwn tuag atynt**

- Rhoi'r dechrau gorau posibl mewn bywyd i bobl
- Sir lewyrchus a chysylltiedig
- Cynyddu i'r eithaf botensial yr amgylchedd naturiol ac adeiledig
- Llesiant gydol oes
- Cyngor gyda ffocws ar y dyfodol

## Ein Gwerthoedd

**Bod yn agored**. Rydym yn agored ac yn onest. Mae pobl yn cael cyfle i gymryd rhan mewn penderfyniadau sy'n effeithio arnynt, dweud beth sy'n bwysig iddynt a gwneud pethau drostynt eu hunain/eu cymunedau. Os na allwn wneud rhywbeth i helpu, byddwn yn dweud hynny; os bydd yn cymryd peth amser i gael yr ateb, byddwn yn esbonio pam; os na allwn ateb yn syth, byddwn yn ceisio eich cysylltu gyda'r bobl a all helpu - mae adeiladu ymddiriedaeth ac ymgysylltu yn sylfaen allweddol.

**Tegwch**. Darparwn gyfleoedd teg, i helpu pobl a chymunedau i ffynnu. Os nad yw rhywbeth yn ymddangos yn deg, byddwn yn gwrando ac yn esbonio pam. Byddwn bob amser yn ceisio trin pawb yn deg ac yn gyson. Ni allwn wneud pawb yn hapus bob amser, ond byddwn yn ymrwymo i wrando ac esbonio pam y gwnaethom weithredu fel y gwnaethom.

**Hyblygrwydd**. Byddwn yn parhau i newid a bod yn hyblyg i alluogi cyflwyno'r gwasanaethau mwyaf effeithlon ac effeithiol. Mae hyn yn golygu ymrwymiad gwirioneddol i weithio gyda phawb i groesawu ffyrdd newydd o weithio.

**Gwaith Tîm**. Byddwn yn gweithio gyda chi a'n partneriaid i gefnogi ac ysbrydoli pawb i gymryd rhan fel y gallwn gyflawni pethau gwych gyda'n gilydd. Nid ydym yn gweld ein hunain fel 'trefnwyr' neu ddatryswyr problemau, ond gwnawn y gorau o syniadau, asedau ac adnoddau sydd ar gael i wneud yn siŵr ein bod yn gwneud y pethau sy'n cael yr effaith mwyaf cadarnhaol ar ein pobl a lleoedd.